# <u>CYNGOR CYMUNED LLANGRANNOG</u>

## Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, Adran 116

# Hysbysiad o Gyfethol

RHODDIR HYSBYSIAD DRWY HYN fod **Cyngor Cymuned Llangrannog** yn bwriadu Cyfethol **2** aelod i lenwi'r llefydd gwag sydd yn bodoli ar gyfer Cynghorydd.

Ceisir datganiadau o ddiddordeb gan aelodau o'r cyhoedd sy'n cwrdd â'r meini prawf canlynol ac sydd â diddordeb mewn cynrychioli eu tref/cymuned ar y Cyngor Tref/Cymuned dywededig. Rhaid bod yn ddinesydd o Brydain, y Gymanwlad, Iwerddon neu'r Undeb Ewropeaidd ac yn 18 oed neu'n hŷn, a rhaid cwrdd ag o leiaf un o'r meini prawf canlynol:

- wedi'ch cofrestru fel etholwr llywodraeth leol ar gyfer yr ardal a enwir uchod; neu
- wedi bod yn berchennog neu'n denant tir neu safle arall yn y gymuned a enwir uchod, yn ystod y 12 mis diwethaf yn gyfan; neu
- wedi bod â'ch prif neu'ch unig weithle yn y gymuned a enwir uchod, yn ystod y 12 mis diwethaf; neu
- wedi byw yn y gymuned, neu o fewn 4.8 cilometr ohoni, yn ystod y 12 mis diwethaf yn gyfan.[1]

Os ydych yn dymuno cael eich ystyried i gael eich cyfethol ar gyfer y sedd wag, neu'n dymuno cael rhagor o wybodaeth ynglŷn â rôl Cynghorwyr Cymuned, cysylltwch â Sioned Davies, Clerc y Cyngor Cymuned ar 07891736125 neu drwy anfon e-bost at ccllangrannog@hotmail.com **Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 5:00yh Llun 1af o Ebrill.**

Dyddiedig yr 5ed o Fawrth 2024

---

[1] Mae rhai pobl benodol wedi'u hanghymhwyso rhag ymgeisio, yn eu plith swyddogion cyflogedig y cyngor cymuned, unrhyw un sy'n destun gorchmynion cyfyngu methdalwyr a'r rheiny a fu'n destun dedfrydau o garchar yn ddiweddar.